

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 12.10.22 - am 7.00 yh yn Y Ganolfan, Llwyngwrlil

Presenol: Keith Carroll (KC – Cadeirydd), Jane Lawrence (JL), Nicola Roberts (NR),
Francesca Pridding (FP), Huw Davies (HD), Geraint Edwards (GE), David Griffiths (DG), Ian Williams (IW),
Howard Bevington (HB – Clerc).

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
Croesawodd hefyd rai aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi eu gwahodd i'r cyfarfod i drafod eitem ar yr agenda.
- 2. Ymddiheuriadau:** Geraint Micah (GM), Jenny Warne (JW), Louise Hughes (LH - Cynghorydd Sirol).
- 3. Datgan Diddordeb:** Dim.
- 4. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28.09.22.
Cynnig: NR Eiliwyd: DG.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol:

Gwahoddwyd y bobl sydd yn byw yn Tyddyn Ithel i fynychu'r cyfarfod gan eu bod wedi gofyn am gefnogaeth a chymorth y Cyngor Cymuned pan y delio gyda cais cyn-gynllunio gan barc gwyliau Sunbeach, gan fod y cais, o bosib, yn gallu effeithio ar eu heiddo nhw.

'Roedd angen cyflwyno unrhyw ymatebion i'r cais cyn-gynllunio yma erbyn 21.10.22.

Eu prif bryder oedd y byddai'r fynedfa newydd (arfaethedig) i'r safle yn union gyferbyn â'u mynediad i'w ty nhw. Byddai hyn yn achosi niwsans yn ystod y gwaith datblygu, achosi perygl i gerbydau fynd i mewn ac allan o'u heiddo, creu sŵn ac effeithio ar eu golau, ac yn achosi problemau i ffermwyr sy'n cadw anifeiliaid ar y tir ger y safle.

Trafodwyd y byddai angen asesiadau diogelwch annibynnol, a nodwyd bod yr ardal ar lwybr Ras 360 Gwynedd.

Daeth y cynghorwyr i'r penderfyniad y dylai'r Cyngor Cymuned adael eu ymglymiad a mewnbwn tan y cam cynllunio. Cytunwyd y dylai'r clercc gysylltu â Savills a'u gwahodd i gwrdd âg aelodau y Cyngor Cymuned i drafod eu cynigion. **I'w Weithredu gan – HB.**

Gwahoddwyd Carol Carroll i'r cyfarfod i drafod y sefyllfa ynghylch y diffibriliwr arfaethedig ar gyfer Rhoslefain. 'Roedd hi'n delio â'r cais am grant gan Un Llais Cymru ar ran y Cyngor Cymuned.

Pris y diffibriliwr = £1,194 gan gynnwys TAW. Pris y cabinet gwyrdd diogel = £550 gan gynnwys TAW.
Pris y padiau = £119 ddim yn cynnwys TAW – felly argymhellwyd prynu dwy set. Mae safle wedi ei sicrhau yn Fferm Rhoslefain ac mae angen cyflenwad trydan. Cafwyd trafodaeth ar godi arian a'r posibilrwydd o rôdd gan y Cyngor Cymuned i gwrdd ag unrhyw costa.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd gan y Cyngor Cymuned ar hyn o bryd unrhyw gyfrifoldeb am y diffibrilwyr yn Llwyngwrlil ac nid oedd y Cynogr Cymuned yn eu hyswiro. **Cynigiwyd dau benderfyniad.** Yn gyntaf bod angen diffibriliwr yn Rhoslefain ac yn ail bod y Cyngor Cymuned yn cwrdd ag unrhyw ddiffyg mewn costau ar ôl gweithgareddau codi arian. Pasiwyd y ddau benderfyniad hyn trwy godi dwylo.

Dyweddod FP y dylai fod yn bosibl cael arian grant a byddai'n ymchwilio y mater yma. Cytunwyd hefyd pe bai arian grant yn cael ei dderbyn, yna byddai'r cyfrifoldeb am y diffibrilwyr yn cael ei dderbyn gan y Cyngor Cymuned.

I'w Weithredu gan - FP.

Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn cysylltu ag Alan Wild i ddiweddar'u sefyllfa o ran perchnogaeth ac yswiriant.

I'w Weithredu gan – KC.

DG yn dal i gyfathrebu ynghlyn a signal ffôn yn Rhoslefain.

'Roedd llythyrau wedi'u hanfon at y preswlydd gan y Clerc â'r Cyngorydd Sirol i ymateb.

Cyfrif banc HSBC dal heb ei gau – Cadeirydd wedi ymweld â'r gangen yn Nolgellau a chanfod nad oedd ei enw ar y "mandate". Cyngorwyd y clerch i gysylltu â HSBC yn gofyn iddynt ysgrifennu i'w cyfeiriad derbynol diwethaf gan roi rhestr o enwau'r aelodau ar y "mandate". Gall rhain wedyn fynd ati i gau'r cyfrif.

I'w Weithredu gan – HB.

Cytunwyd hefyd i dalu sic o £950 i gyfrif banc Nat West gan adael tua £20 yng nhyfrif banc HSBC. Nodwyd bod taliad o £5 y mis yn cael eu wneud tra bod y cyfrif yn parhau ar agor, a dim cadarnhad o pryd y byddent yn cau'r cyfrif.

Ymatebodd yr Adran Briffyrdd, Cyngor Gwynedd i'n cais am ymweliad i drafod "croesfan" ger y Cae Chwarae. Cadarnhawyd nad oedd cyllid ar gael ar hyn o bryd, felly ni fydd Cyngor Gwynedd yn gallu cefnogi'r cais yma.

6. Gohebiaeth wedi eu derbyn:

Clerc wedi derbyn galwad ffôn gan Aled Lewis o Glwb Rotari Tywyn. Gofynnodd am fanylion a dyddiadau mae goleuadau Coed Nadolig Cyngor Cymuned Llangelynnin yn cael eu rhoi ymlaen, ac os oedd yr aelodau am i'r Clwb Rotari fynychu. Cafwyd trafodaeth am wahanol ddiwyddiadau a dyddiadau a chytunwyd y byddai FP yn cysylltu ag Aled gan eu bod yn adnabod eu gilydd. **I'w Weithredu gan – FP.**

Clerc wedi derbyn galwad ffôn gan berchennog tŷ gwyliau yn y pentref, yn cadarnhau fod ei gŵr wedi tolacio ei gar ar rhai o'r polion ar ochr y ffordd oedd yn berchen i Network Rail.

Gofynnodd a allai'r Cyngor Cymuned gynnig unrhyw gymorth iddynt gyda'u hawliad yswiriant.

Cadarnhawyd fod trafodaethau blaenorol wedi'u cynnal a'u cofnodi ynglyn a'r polion yma yn gwyro i'r ffordd (ar y ffordd rhwng Friog a Llwyngwrl).

Cytunwyd ofyn i'r clerch i gysylltu â pherchenog y ty gwyliau eto ac awgrymu iddynt cyngori eu cwmni yswiriant i ymchwilio â gwefan Cyngor Cymuned Llangelynnin, i gael y wybodaeth i geisio gwneud hawliad yn erbyn Network Rail.

Derbyniwyd rhai e-byst a darllenodd y Clerc benawd y rhan fwyaf ohonynt i benderfynu a fyddent o ddiddordeb i'r Cyngor Cymuned. Trafodwyd y rhain yn fyr ond nid oedd angen unrhyw gamau pellach.

'Roedd un yn ymwneud â hyfforddiant i'r Clerc gan Gymorth Cynllunio Cymru. Trafodwyd a chytunwyd ymhlith y cyngorwyr y byddai ILCA o £120 a TAW yn well, gan y byddent yn anfon hyfforddwr atom a gallem wahodd cyngorwyr eraill i wneud grŵp mwy.

Derbyniwyd e-bost gan Lywodraeth Cymru ynghylch adborth ar ddiwygio etholiadol arfaethedig. Cytunwyd bod y clerch yn dosbarthu'r e-bost hwn i bob cyngorydd. **I'w Weithredu gan – HB.**

7. Materion Cynllunio:

NP5/69/E417 – Rhoslefain - uwchraddio llinellau pŵer trydan uwchben.

Cytunwyd nad oedd angen mewnbwn gan y cyngorwyr.

8. Adroddiad Ariannol:

‘Roedd y clerc wedi cyhoeddi adroddiad ariannol ar wahân, a gofynnodd y cynghorwyr am adroddiad tri mis wedi'i ddiweddarau mewn fformat gwahanol. Bydd y clerc yn trefnu hynny ar gyfer y cyfarfod nesaf.

I'w Weithredu gan – HB.

‘Roedd siec o £950 yn cael ei throsglwyddo o gyfrif banc HSBC fel y trafodwyd yn flaenorol, a gweithgareddau a balans cyfrif Nat West yn cael eu dangos ar wahân.

9. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:

Dywedodd FP nad oedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth gan Un Llais Cymru ynglyn a phryd fyddai'r cyfarfod rhanbarthol nesaf. Gan mai hi yw ein cynrychiolydd, gofynnodd i'r clerc gysylltu ag Un Llais Cymru i gael gwybod.

I'w Weithredu gan – HB.

10. Adroddiad y Cynghorydd Sirol:

‘Roedd LH yn absennol ond roedd wedi ffonio'r clerc yn flaenorol i gadarnhau ei bod wedi ymateb i'r llythyr gan yr aelod o'r gymuned a ysgrifennodd ynglŷn â'r cais cynllunio a fethodd.

11. Unrhyw Fater Arall:

Mae'r Cadeirydd wedi rhoi PC i'r Cyngor Cymuned, sydd bellach yn destun prawf PAT, ac sydd ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer cyfarfodydd y gall aelodau'r cyhoedd eu mynychu o bell. Mae wedi ei fabwysiadu fel ased Cyngor Cymuned ac mae angen ei ychwanegu at y gofrestr asedau. Mae angen cadarnhau ei werth at bwrpas yswiriant. **I'w Weithredu gan – KC/HB.**

Cafwyd trafodaeth ynglyn a'r Coed Nadolig. **I'w Weithredu gan – NR/GM.**

Mae angen gosod y fainc ger lan y môr. **I'w Weithredu gan – KC/GE.**

Mae angen llenwi'r biniau halen. Aelodau yn cynig checio cyflwr pob un ac i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. **I'w Weithredu gan – IW/GE.**

Cafwyd drafodaeth am deulu sydd wedi symud i'r pentref o'r Wcráin, sydd angen dod o hyd i gadair olwyn. Un awgrym oedd - llogi cadair olwyn gan "Y Groes Goch".

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Nos Fercher - 09.11.22 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwriil

Arwyddwyd

Cadeirydd Dyddiad